

Adroddiad Blynyddol

Trosolwg a Chraffu

Cyngor Sir Ceredigion

2012/13

Cyflwyniad

Beth yw Trosolwg a Chraffu?

Darparwyd trefniadau gweithrediaeth yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 a welodd yr hen system bwyllgorau o lywodraeth leol yn cael ei disodli gan system lle mae gweithrediaeth fach, wedi'i diffinio'n glir (y Cabinet) yn gyfrifol am gynnig arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau o fewn fframwaith a gytunwyd gan y cyngor llawn; a lle mae pwyllgorau trosolwg a chraffu newydd yn adolygu perfformiad y weithrediaeth ac yn ceisio gwelliant a datblygiad parhaus.

Cyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2012, adolygodd Aelodau'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu strwythur Trosolwg a Chraffu'r Cyngor gan ystyried nifer o ffactorau a oedd yn effeithio ar y ffordd yr oedd y Cyngor yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau gan gynnwys argymhellion Llythyr Asesu Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru Awst 2011. Roedd yr hen strwythur yn cynnwys un Pwyllgor Cydlynu a chwech o Bwyllgorau Pwnc Trosolwg a Chraffu a oedd yn cyfateb i chwe phortffolio'r Cabinet. Mae'r strwythur newydd yn cynnwys pump o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu thematig, sef:

- Cymunedau Ffyniannus
- Cymunedau Iachach
- Cymunedau sy'n Dysgu
- Adnoddau Corfforaethol
- Cydlynu.

Mae Canllawiau Statudol i'r Cyngorau Sir a'r Cyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen (2006) yn nodi bod

pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn rhan hanfodol ac annatod o drefniadau gweithrediaeth. O dan adran 21 o'r Ddeddf, rhoddir pwerau adolygu a chraffu eang iddynt ynghyd â'r gallu i gyflwyno adroddiadau ac argymhellion ar unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r ardal a'i thrigolion. Swyddogaeth y cyngorwyr sy'n trosolygu ac yn archwilio yw:

- dal y weithrediaeth yn atebol am arfer swyddogaethau'r weithrediaeth yn effeithlon –yn arbennig perfformiad y weithrediaeth o'i fesur yn erbyn y safonau, yr amcanion a'r targedau a nodir yn y polisïau a'r cynlluniau y mae'n eu gweithredu;
- helpu i wella ac i ddatblygu polisïau'r cyngor drwy bwysu a mesur a ydynt yn cyrraedd yr amcanion a nodwyd, a yw'r polisïau hynny a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau lleol a thrwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r weithrediaeth neu i'r cyngor llawn;
- adolygu materion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ei thrigolion a chyflwyno adroddiadau arnynt; ac
- edrych a yw'r systemau y mae'r weithrediaeth wedi'u sefydlu i gyflwyno'i swyddogaethau yn gadarn ac yn cael eu parchu'n iawn.

Yn ychwanegol, byddant yn gallu adolygu sut mae'r swyddogaethau anweithredol yn cael eu cyflawni a chyflwyno adroddiadau ar faterion o ddiddordeb lleol mwy cyffredinol. Gallai hyn gael ei gyplysu â phŵer yr awdurdod o dan Ran 1 o'r Ddeddf i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy nodi meysydd y gallai'r weithrediaeth roi sylw iddynt drwy ddefnyddio'r pŵer hwn.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gyhoeddwyd yn fwy diweddar yn nodi bod rôl glir i swyddogaeth graffu awdurdod yn ei brosesau gwella: fel rhan o'i rôl yn galw penderfynwyr a llunwyr polisi i gyfrif yn lleol, a'i rôl yn datblygu polisïau. Dylai hyn ymestyn i:

- graffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- craffu ar addasrwydd y sefydliad i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- craffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth ddewis ei amcanion gwella, gan gynnwys adolygu lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- craffu ar fonitro'r cynnydd wrth gyflenwi amcanion gwella'r awdurdod;
- hyrwyddo arloesi trwy herio'r drefn ac annog ffyrdd gwahanol o feddwl ac opsiynau cyflenwi.

Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar chwe achlysur yn ystod blwyddyn 2012/2013.

Ymhlith yr eitemau safonol a ystyrir ym mhob Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y mae diweddariad ar ddatblygiadau yn y maes Craffu a diweddariad gan y Cadeiryddion ar waith eu Pwyllgorau.

Materion allweddol a ystyriwyd yn 2012/13

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar faterion trosolwg a chraffu gan gynnwys diweddariadau o gyfarfodydd Rhwydwaith Swyddogion Trosolwg a Chraffu Cymru, diweddariadau ynghylch Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a gwybodaeth ynghylch materion llywodraethu.

Ystyriodd y Pwyllgor y Cynllun Gwella drafft ar gyfer 2012/13 cyn iddo fynd gerbron y Cabinet a'r Cyngor.

Gwnaeth y Pwyllgor barhau i fonitro Cynllun Gweithredu Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed Ceredigion a'r Cynllun Busnes Amddiffyn Plant yn dilyn cyhoeddi Adroddiad ar y cyd Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar eu hymchwiliad i drin a rheoli honiadau o gam-drin proffesiynol a'r trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn y gwasanaethau addysg yng Nghyngor Sir Penfro.

Cyfetholwyd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor fel aelodau heb hawliau pleidleisio yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio y dylid cyfethol Cadeirydd a'r Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor yn aelodau heb hawliau pleidleisio er mwyn gwella'r modd yr oedd pynciau ar gyfer craffu yn cael eu cydlynu a'u cynllunio at y dyfodol yng nghyd-destun gwella parhaus a rheoli perfformiad.

Cyflwynodd yr Arweinydd gyllideb arfaethedig 2013-14 i'r Pwyllgor, ac ystyriodd y Pwyllgor y gyllideb yn ei chyfanrwydd cyn i'r pwyllgorau unigol ystyried y cyllidebau drafft ar gyfer eu gwasanaethau unigol nhw.

Ystyriodd y Pwyllgor ddatblygiad Rhaglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu at y Dyfodol ar gyfer 2012/13. Rôl y Pwyllgor Cydlynu yw goruchwyllo'r Rhaglenni Gwaith at y Dyfodol gan sicrhau eu bod yn berthnasol, eu bod yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol a'u bod yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol. Mae angen sicrhau hefyd eu bod wedi'u cydlynu i osgoi dyblygu, eu bod yn realistig ac yn hylaw o fewn yr adnoddau sydd ar gael, ac y byddant yn ychwanegu gwerth. Cytunodd y Pwyllgor

y dylai pob pwyllgor ystyried eu Rhaglenni Gwaith unigol eu hunain yn unol â'r canllawiau yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor y Cynllun Integredig Sengl drafft, cyn ac ar ôl yr ymgynghori. Amlinellwyd cynnwys y Cynllun Drafft i'r Pwyllgor, gan gynnwys:

- Gofynion Llywodraeth Cymru a'r amserlen ar gyfer paratoi cynllun
- Y broses a ddilynwyd hyd yn hyn, gan gynnwys y gweithdy i bob Aelod a gynhaliwyd gan y Cyngor
- Y pum egwyddor arweiniol a'r tair thema flaenoriaethol a gytunwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol fel sail i'r cynigion a gynhwyswyd yn y Cynllun.
- Yr amserlen ar gyfer ymgynghori, ystyried a chymeradwyo erbyn diwedd mis Ebrill 2013 er mwyn bodloni amserlen Llywodraeth Cymru
- Y cyfeiriad ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 at graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a monitro'r cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun a'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Cyngor.

Amlinellwyd y strwythur diwygiedig a sefydlwyd ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gan gynnwys gostyngiad o 8 i 5 yn nifer y partneriaethau sy'n atebol iddo.

Ystyriodd y Pwyllgor Amcanion y Cynllun Gwella ar gyfer 2013-17. Cafwyd trafodaeth fanwl ynghylch y pedwar maes allweddol yr oedd y Cabinet wedi'u nodi'n Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14:

- Gwella rheoli carbon er mwyn galluogi'r Cyngor i fod yn fwy 'gwyrdd' a mwy effeithiol
- Gwella safonau addysg yn y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) a Chyfnod Allweddol 4 (16 oed)
- Cynorthwyo pobl eraill i fyw yn fwy annibynnol
- Datblygu rhagolygon economaidd Aberystwyth fel canolfan ranbarthol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiadau perfformiad busnes chwarterol a rhoddwyd adborth i'r Cabinet. Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor fonitro polisi a gweithgareddau'r Awdurdod ynghylch Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

Materion Trosedd ac Anhrefn

Daeth Adrannau 19 ac 20, Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ynghyd â Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009 i rym ar 1 Hydref 2009. Roedd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu:

- 'Pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn' a fyddai'n craffu ar waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a'r cyrff sy'n aelodau (y Cyngor, Heddlu Dyfed Powys, Awdurdod Heddlu Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sef yr awdurdodau cyfrifol) wrth gyflawni eu swyddogaethau o ran diogelwch cymunedol,
- Gweithdrefn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, y bartneriaeth a'r cyrff sy'n aelodau ei dilyn wrth ymdrin â Chynghorwyr yn Galw am Weithredu (yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol).

Gwnaeth Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu presennol y Cyngor ymgymryd â'r cyfrifoldebau dros faterion trosedd ac anhrefn.

Materion Trosedd ac Anhrefn a gwaith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion

Yn wreiddiol, cafodd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eu creu gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i ddatblygu a gweithredu strategaethau i leihau trosedd ac anhrefn. Bwriad Partneriaeth Ceredigion yw 'gweithio gydag unigolion, mudiadau a chymunedau i adeiladu cymdeithas ddiogel, deg a goddefgar i'r sawl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Cheredigion'. Yn ogystal â chynrychiolwyr yr awdurdodau cyfrifol, mae'r Bartneriaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Ceredigion, Ymddiriedolaeth Prawf Dyfed-Powys, y Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth, y Cydlynnydd Comisiynu Camddefnyddio Sylweddau a'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol.

Materion allweddol a ystyriwyd yn 2012/13

Rhoddodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol ac Argyfyngau Sifil Posibl gyflwyniad ynghylch Aseiad Strategol Diogelwch Cymunedol 2012-13 i'r Pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys:

- Diben yr aseiad
- Adolygiad o'r cynnydd a'r canfyddiadau allweddol
- Ymgynghori â'r cyhoedd
- Yr argymhellion sy'n flaenoriaeth ar gyfer 2012
- Deddfwriaeth a datblygiadau cysylltiedig

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar saith achlysur yn ystod blwyddyn 2012/2013.

Materion allweddol a ystyriwyd yn 2012/13

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ystyriwyd yr adroddiad ynghylch Datblygu Rhaglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu at y Dyfodol ar gyfer 2012/13. Cafodd y Rhaglen Waith at y Dyfodol ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Cyflwynwyd adroddiad diweddarau ynghylch y perfformiad o ran Casglu Treth y Cyngor ac Ardrethi Busnes gerbron y Pwyllgor yn dilyn darn o waith yr oedd y pwyllgor wedi'i wneud yn y maes hwn yn flaenorol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried effeithiau Diwygio Lles. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen ynghylch Diwygio Lles. Cyflwynwyd adroddiadau ynghylch y cynnydd yr oedd y grŵp yn ei wneud gerbron y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth y grŵp gorchwyl a gorffen baratoi adroddiad gan roi darlun o'r sefyllfa yn y Sir, a dadansoddiad o'r data. Edrychodd ail ran gwaith y grŵp ar effaith ddisgwyliedig y newidiadau ar y Sir. Aeth gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen ymlaen i 2013/14.

Gwnaeth y pwyllgor barhau i fonitro'r gwaith o weithredu'r broses gwerthuso swyddi a chyflog cyfartal, a chytunodd y byddai'n derbyn adroddiad arall ynghylch gwerthuso swyddi ar ôl i ganlyniad yr apeliadau ddod i'r amlwg.

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu ymateb y Cyngor i argyfwng llifogydd gogledd Ceredigion. Aeth gwaith y grŵp hwn ymlaen i 2013/14.

Rhodddwyd adroddiad diweddarau ynghylch y perfformiad o ran absenoldebau oherwydd salwch a oedd wedi gwella'n fawr o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Hefyd, ystyriodd y Pwyllgor y modd o gynnal a chadw adeiladau'r Cyngor yn flynyddol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adolygiad ynghylch darparu Swyddfeydd Lleol y Cyngor yng Ngheredigion yng nghyd-destun y cynigion ynghylch nodi arbedion effeithlonrwydd fel rhan o gyllideb 2013-14; cyn y byddai'n mynd gerbron y Cabinet. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid gwneud newidiadau i'r cynnig ynghylch swyddfa leol y Cyngor yn Adpar.

Ystyriodd y Pwyllgor y gyllideb yr oedd y Cabinet yn ei hargymell ar gyfer 2013/14.

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor ynghylch System Rheoli Perfformiad Ffynnon a'r gofynion adrodd o ran Trosolwg a Chraffu. Cytunwyd y byddai hyfforddiant ynghylch Ffynnon yn cael ei roi i'r Aelodau mewn grwpiau bach neu'n unigol.

Ystyriodd y Pwyllgor y Cynlluniau Gweithredu TGCh a ddatblygwyd yn dilyn adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch y canlynol:

- Adborth o'r Adolygiad Technoleg - Awst 2011
- Adborth o'r Adolygiad Rheoli Gwybodaeth - Chwefror 2012
- Adroddiad Cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch Defnyddio Technoleg i Gyflawni Gwelliannau ac Effeithlonrwydd mewn Llywodraeth Leol.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y gofynion o ran Rhyddid Gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i'r Pwyllgor. Roedd nifer o Aelodau o'r farn y dylai'r Cyngor feddu ar Gofnod Datgeliadau yn debyg i'r hynny oedd ar wefan Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod Grŵp Swyddogion Cymru gyfan wedi trafod yr opsiwn hwn. Dywedodd yr Aelodau y byddai hynny yn hwyluso nifer yr ymholiadau yng nghyswllt ceisiadau tebyg. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod adnoddau yn ystyriaeth bwysig wrth sefydlu cofnod o'r fath. Argymhellwyd y dylai fod un man cyswllt ar gyfer materion Rhyddid Gwybodaeth. Byddai'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried wrth weithredu'r broses drawsnewid.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar ddeg achlysur yn ystod blwyddyn 2012/2013.

Materion allweddol a ystyriwyd yn 2012/13

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ystyriwyd yr adroddiad ynghylch Datblygu Rhaglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu at y Dyfodol ar gyfer 2012/13. Cafodd y Rhaglen Waith at y Dyfodol ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Ystyriodd y Pwyllgor y ffaith bod Ward Afallon, Ysbyty Bronglais wedi cau'n sydyn a gwahoddwyd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Hywel Dda i'r cyfarfod i esbonio'r canlynol:

- y rhesymau am gau'r ward yn sydyn a'r diffyg rhybudd a roddwyd
- y camau a gymerir i fynd i'r afael â'r broblem staffio gyfredol
- unrhyw gyngor a roddwyd i Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor Sir parthed atgyfeiriadau ac asesiadau iechyd meddwl a threfniadau ar gyfer manau diogel.

Roedd cynrychiolydd o'r gwasanaeth Ambiwlans hefyd yn bresennol i amlinellu'r sefyllfa yn dilyn penderfyniad y Bwrdd Iechyd. Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad i'r Pwyllgor ar ran yr Heddlu.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch y canlynol:

- y diffyg rhybudd a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd cyn cau'r Ward, yn enwedig i'w bartneriaid megis Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor a'r heddlu, a'r effaith andwyol o ganlyniad i hyn ar atgyfeiriadau ac asesiadau cleifion
- y ffaith na ddarperir y lefel priodol o ofal i gleifion yn rhan yma'r Sir
- y posibilrwydd y gall yr anawsterau recriwtio staff olygu ansicrwydd am lefel statws y gwasanaeth a ddarperir gan yr Ysbyty yn y dyfodol.

I gloi, gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor bwysleisio i gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yr angen dybryd i ddatrys y problemau staffio ac ailagor y Ward er mwyn darparu lefel priodol o ofal i gleifion yn yr ardal yr effeithir arni. Rhoddodd Bwrdd Iechyd Hywel Dda ragor o wybodaeth ynghylch y swyddi gwag a hysbysebwyd yng Nghyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Ceredigion yn ystod 2011/12.

Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor ystyried Gofal Cartref yn y Sir.

Ystyriodd y Pwyllgor yr astudiaeth ddichonolrwydd ynghylch integreiddio Canolfan Meugan (Canolfan Cymorth Cymunedol ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu) â'r Hafod, Aberteifi (Gwasanaeth Dydd i Bobl Hŷn). Ymwelodd Aelodau'r Pwyllgor â Chanolfan Meugan a'r Hafod cyn ystyried yr astudiaeth ddichonolrwydd. Casglwyd tystiolaeth oddi wrth gynrychiolwyr o Gyngor Tref Aberteifi, Age Concern Cymru Ceredigion, Mencap, a Fforwm Cymru Gyfan i Rien i a Gofalwyr / Fforwm Ceredigion. Argymhellwyd y canlynol:

- i) peidio â chefnogi'r argymhelliad a geir yn yr Adroddiad a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf, sef y dylai'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd yng Nghanolfan Meugan gael eu darparu yng Nghanolfan Ddydd yr Hafod, a hynny oherwydd nad yw'r Pwyllgor yn credu ei bod yn addas darparu gwasanaethau i gleientiaid ag anawsterau dysgu a phobl hŷn yn y ganolfan ddydd, ac y byddai hynny'n effeithio'n andwyol ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r ddwy set o gleientiaid;
- ii) er mwyn tawelu ofnau'r Pwyllgor am y goblygiadau iechyd a diogelwch i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r staff, gofyn i'r Cyfarwyddwr Priffyrdd, Eiddo a Gwaith am gadarnhad ar fyrder o gyflwr presennol adeilad Canolfan Meugan, a chyngor ynghylch a ddylid gadael yr adeilad, a phryd;
- iii) gofyn am arolwg annibynnol o'r adeilad er mwyn egluro a oes modd ei adnewyddu, a chost y gwaith adnewyddu hwnnw, neu a oes angen ei ddymchwel, a chost darparu cyfleuster o'r un math yn ei le;
- iv) parhau i ddarparu gwasanaeth ar wahân i gleientiaid ag anawsterau dysgu mewn adeilad amgen neu yng Ngholeg Ceredigion neu yn hen adeilad yr ysgol gynradd ym Mlaenporth; ac, yn dibynnu ar ganlyniad y wybodaeth a ddaw i law gan y Cyfarwyddwr Priffyrdd, Eiddo a Gwaith, fel y nodir yn iii), darparu canolfan dros dro yn hen adeilad ysgol Blaenporth, os yw hynny'n angenrheidiol.

Yn dilyn y digwyddiadau ymgynghori, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch safleoedd eraill ar gyfer darparu'r gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol yng Nghanolfan Meugan, Aberteifi. Argymhellwyd y canlynol i'r Cabinet:

- Cefnogi opsiwn 2 i ailadeiladu Canolfan Meugan ar yr union safle gyda chyfleusterau ychwanegol ar yr amcangyfrif costau a ddarparwyd.
- Cefnogi adleoli dros dro'r gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol gan Ganolfan Meugan o Neuadd y Dref i Ganolfan Ddydd Yr Hafod, a hynny am y cyfnod hyd at gwblhau'r gwaith o ailadeiladu'r Ganolfan Meugan newydd.

Ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori ar gyfer Gofalwyr (2012-15). Cafodd sylwadau'r Pwyllgor eu cyfrannu at y broses ymgynghori. Yn benodol, roedd yr Aelodau'n teimlo y byddent yn elwa o gael hyfforddiant ynghylch y mater hwn i'w cynorthwyo nhw i ddelio ag achosion yn eu wardiau fel rhan o'u rôl fel cynrychiolwyr. Gwnaeth yr Aelodau gwblhau pecyn e-ddysgu'r gofalwyr.

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Rheoli Amlasiantaeth Diogelu Plant Lleol ac Adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol. Argymhellwyd y dylid gwella'r modd y cyflwynir yr adroddiadau a rhoddwyd rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor yn ôl y galw.

Hefyd, ystyriodd y Pwyllgor y gyllideb yr oedd y Cabinet yn ei hargymell ar gyfer 2013/14, gan gynnwys adroddiad ynghylch Perfformiad Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2012/13. O ystyried bod yr Adran yn parhau i wynebu pwysau ar y gyllideb, gwnaeth y Pwyllgor argymell i'r Cabinet y dylai'r £600,000 a ddyranwyd dros dro i gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2012/13 gael ei throsglwyddo'n barhaol o'r gyllideb Cyllid Corfforaethol i gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen o'r Pwyllgor i archwilio'r gwasanaeth iechyd a lles anifeiliaid. Gwnaed argymhelliad i'r Cabinet ar gyfer cynnwys swm o £23,000 yn ychwanegol yng Nghyllideb yr Adran ar gyfer 2013-14 i wneud yn iawn am y gostyngiad yn yr arian oddi wrth Lywodraeth Cymru ac i ddiogelu'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd. Argymhellwyd hefyd y dylai lefel y ffioedd a godir gael ei hadolygu i sicrhau bod gwir gost cynnal yr archwiliadau yn cael ei hariannu.

Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch Cydweithio â Chyngor Sir Powys ym maes y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghanolbarth Cymru. Penderfynwyd ynghylch y canlynol:

- i) cytuno ag argymhelliad y Cabinet i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu a chomisiynu a chaffael gyda Chyngor Sir Powys; gan gydnabod yr achos busnes a'r posibilrwydd y gallai'r Cyngor arbed ac osgoi costau trwy fod yn rhan o'r cydweithio hwn;
- ii) cytuno i gefnogi'r Achos Busnes Terfynol
- iii) nodi i'r Papur Cysyniadol gael ei baratoi fel sail y cydweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn ardal canolbarth a gorllewin Cymru, gan gynnwys Cyngorau Ceredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, a pharhau i gyfrannu at y broses honno; a
- iv) nodi penderfyniad Cabinet Cyngor Sir Powys parthed swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y Cyngor hwnnw.

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig i ystyried cynnyrch parod cig eidion nad ydyw'n bur yn dilyn y scandal cenedlaethol ynghylch cig ceffyl. Rhoddodd y Pwyllgor eu sylw i ddwy agwedd, sef integriti contract arlwygo cig y Cyngor a rôl archwilio a gorfodi'r Cyngor o ran sicrhau diogelwch bwyd. Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

- i) nodi, yn dilyn derbyn gwybodaeth oddi wrth Swyddogion yn y Cyfarfod, fod y Pwyllgor yn hapus gydag amodau cyfredol y contract cig a bod y gwasanaeth arlwygo wedi cymryd pob camau posib i gadarnhau tarddiad y cig ffres a gyflenwir ac y cedwir at amodau'r contract;
- ii) unwaith eto, yn dilyn derbyn y wybodaeth a ddarparwyd gan Swyddogion yn y cyfarfod, roedd y Pwyllgor yn fodlon â lefel presennol yr archwiliadau eiddo bwyd a wneir gan Swyddogion ond gofynnwyd am sicrwydd fod adnoddau digonol ar gael er mwyn cyflawni gofynion statudol;
- iii) dylid cyhoeddi datganiad i'r wasg yn amlinellu'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y cyfarfod yma, sef diweddariad ar y camau a gymerwyd hyd yma fel ymateb i'r mater;
- iv) argymhell i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach y dylid sefydlu grŵp tasg a gorffen er mwyn adolygu'n fanwl y contractau cyfredol ar gyfer deunyddiau bwyd ac ystyried unrhyw welliannau posib y gellir eu cyflwyno mewn amser ar gyfer y cylch nesaf o dendrau; a
- v) nodi'r camau a gymerwyd gan Swyddogion o ran samplu bwyd ac aros am ganlyniadau'r rhaglen samplu bwyd yn y pum diwrnod nesaf ac y dylid cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y gall yr Aelodau fod yn ymwybodol o'r materion sy'n effeithio ar y Cyngor, preswylwyr lleol a busnesau yn y Sir.

Ystyriodd y Pwyllgor adolygiad annibynnol ynghylch darparu canolfan ddydd yn Aberystwyth cyn y byddai'n mynd gerbron y Cabinet. Roedd Ysgrifennydd Cangen UNSAIN yn bresennol i gyfleu barn staff y Ganolfan Ddydd. Hefyd, roedd cynrychiolwyr Achub Canolfan Ddydd Coedlan y Parc (SPADC) yn bresennol yn y cyfarfod i godi eu pryderon â'r Pwyllgor. Yn ogystal, bu Aelodau'r Pwyllgor ar ymweliad â'r ganolfan ddydd newydd i weld y cyfleusterau a siarad â defnyddwyr y gwasanaeth.

Yng nghyd-destun argymhelliad 6 yr Adroddiad, sef:

'O fewn yr agenda newid sydd yn ofynnol gan Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, bod trafodaeth strategol i'w chynnal ynglŷn ag anghenion cenhedlaeth Pobl Hŷn y dyfodol am gefnogaeth ddydd, ynghyd â gwasanaethau a'r atebion i gwrdd â'r rhain. Dylai'r drafodaeth hon

adeiladu ar ymchwil ddiweddar, manteisio'n llawn ar gyfraniad y sector wirfoddol a chymunedau ffydd a gan ddefnyddio cyfleusterau cymunedol prif ffrwd a leolir yn y gymuned'

argymhellwyd bod y Pwyllgor yn chwarae rhan lawn yn y drafodaeth arfaethedig a bod y Swyddogion yn rhoi cyflwyniad i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol ar yr adeg briodol.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar wyth achlysur yn ystod blwyddyn 2012/2013.

Materion allweddol a ystyriwyd yn 2012/13

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ystyriwyd yr adroddiad ynghylch Datblygu Rhaglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu at y Dyfodol ar gyfer 2012/13. Cafodd y Rhaglen Waith at y Dyfodol ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Sefydlwyd ffrydiau gwaith thema ar gyfer codi ymwybyddiaeth, dibenion hyfforddi a nodi agweddau y mae angen rhagor o graffu arnynt. Mae'r ffrydiau gwaith yn cynnwys pedwar aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac mae'r Cadeirydd yn mynd iddynt ac yn cyfrannu at bob un o'r pedwar. Rhoddodd y ffrydiau gwaith adborth i'r prif bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Mae'r pedair ffrwd waith fel a ganlyn:

- Safonau mewn Ysgolion
- Disgyblion Bregus a'u Lles
- Addysg Oedolion
- Moderneiddio'r Seilwaith

Ystyriodd y Pwyllgor drefniadaeth ysgolion yng Ngheredigion yn dilyn adolygiad Mr Alun Morgan o'r Strategaethau Addysg. Roedd Mr Morgan wedi'i gomisiynu i adolygu polisiâu'r Cyngor ynghylch addysg gynradd ac uwchradd yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai.

Ar ôl ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol i'r Cabinet:

- Roedd y Pwyllgor yn cytuno ag argymhelliad cyntaf yr adroddiad, sef 'Sicrhau ymagwedd ragweithiol at reoli newid a datblygu yng ngoleuni'r amgylchiadau economaidd, demograffig ac addysgol.
- Roedd y Pwyllgor yn teimlo y dylid ystyried yr ail bwynt, 'Lleihau'r nifer bresennol o ysgolion cynradd', a'r pedwerydd pwynt, 'Parhau i osgoi

setliad lle byddai un ateb yn addas i bob sefyllfa a rhoi ystyriaeth ofalus i amgylchiadau a chyd-destun lleol', gyda'i gilydd.

- Roedd y Pwyllgor yn cytuno â'r argymhelliad y dylid 'Parhau i archwilio opsiynau i sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy yn Nhregaron.
- Roedd y Pwyllgor yn credu bod y ffigwr a ddefnyddiwyd yn yr argymhelliad a ganlyn yn rhy uchel: 'Cynnal adolygiad, yn unol â'r hyn a nodir yn nogfen bolisi'r Awdurdod, lle bo nifer y disgyblion yn is na 90'. Cynigiodd y Pwyllgor y dylid defnyddio geiriad y polisi presennol: ymgynghori ac annog ysgolion sy'n gostwng islaw hanner cant o ddisgyblion i gydweithio ag ysgol arall. Dylai hyn arwain at leihau nifer yr ysgolion lle mae gan benaethiaid ymrwymadau dysgu.
- Roedd y Pwyllgor yn anghytuno â'r argymhelliad y dylid mynd ati i gau unrhyw ysgol lle mae nifer y disgyblion yn gostwng islaw 30 disgybl. Dylid parhau i ddefnyddio'r ffigwr o ugain disgybl, oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

Yn dilyn adborth o'r ffrwd waith Disgyblion Bregus a'u Lles ynghylch y Gwerthusiad a wnaed yn sgil y prosiect YMGYSYLLTU, archwiliodd y Pwyllgor fanteision cynnal y rhaglen a'r goblygiadau os na fyddai hynny'n digwydd.

Ymhlith y prif fanteision dros gynnal y rhaglen oedd:

- Cyfraddau cyflogaeth uwch;
- Cyfraddau troseddu is ymhlith pobl ifanc;
- Cynnal perfformiad o ran gwaharddiadau o'r ysgol a phresenoldeb;
- Sgiliau/cymwysterau i gystadlu;
- Llai o leoliadau gofal tu allan i'r sir;
- Cynnydd yn nifer y prentisiaethau.

Ymhlith y prif oblygiadau os na chaiff y rhaglen ei chynnal yr oedd:

- Cynnydd yn nifer y lleoliadau gofal tu allan i'r sir (bydd dim ond 2 unigolyn yn costio tua £600,000 y flwyddyn)
- Cynnydd o ran troseddu a'r angen am leoliadau diogel (bydd 2 unigolyn yn costio £10,000 yr wythnos);

- Costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â diweithdra (£97,000 i unigolyn ar hyd ei oes);
- Methu â chyflawni amcanion uniongyrchol Cynllun Gwella Cyngor Sir Ceredigion a chynlluniau'r adrannau..

Enghraifft o effaith uniongyrchol y prosiect Ymgysylltu:

- Gostyngiad o 47% yn nifer y rhai 16-18 oed sy'n NEET (2011-12)

Roedd y prosiect Ymgysylltu'n cynorthwyo pobl ifanc difreintiedig i gystadlu yn yr economi leol ac yn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael y sir, gan gynyddu gweithlu, cyfleoedd cyflogwyr a GDP Ceredigion.

Ar ôl i'r Pwyllgor bwysu a mesur y dystiolaeth, ystyriwyd yr opsiynau ariannol. Cytunwyd y dylid argymhell y canlynol i'r Cabinet:

Cais 100% i gronfa Twf Corfforaethol CSC i gael £456,649 i dalu costau rhoi'r rhaglen ar waith.

Ystyriodd y ffrwd waith Moderneiddio'r Seilwaith y llefydd gwag yn y sector Cynradd ac Uwchradd ac ar ôl hynny bu'r prif Bwyllgor yn trafod y pwnc. Cafwyd trafodaethau ynghylch manteision cael gwared ag ystafelloedd dosbarth symudol gan ddefnyddio'r gofod sydd eisoes yn bodoli er mwyn helpu i sicrhau gostyngiad yn y nifer o lefydd gwag. Gwnaeth y Pwyllgor argymhell y dylai'r Aelodau Cabinet fynd i weithdy gyda swyddogion o'r Adran Addysg.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ynghylch Hunanasesiad y Cyngorau Ysgolion a'r Adroddiad ynghylch y Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion yn 2011-12.

Gwnaeth y Pwyllgor hefyd ystyried y gyllideb yr oedd y Cabinet yn ei hargymhell ar gyfer 2013/14.

Ystyriodd y Pwyllgor Adolygiad Hanner Ffordd Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Strategaeth Tlodi Plant Ceredigion 2011 – 14 a chafwyd y cyfle i ofyn cwestiynau ynghylch y targedau a oedd wedi eu cyflawni'n llawn, y rheiny a gyflawnwyd yn rhannol, a'r rheiny na chawsant eu cyflawni.

Trwy'r Pwyllgor, gwnaeth y ffrwd waith Addysg Oedolion argymhellion ynghylch y contract Rehab i'r Cabinet a chawsant eu derbyn.

Cafodd penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo'r polisi sy'n ymwneud ag ymweliadau cyfnewid addysgol ei alw i mewn gan y Pwyllgor. Roedd y rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn fel a ganlyn:

- Dylai'r mater fod wedi cael ei ystyried gan y pwyllgor hwn a chan aelodau na chawsent y cyfle i drafod y mater cyn iddo gael ei gyfeirio at y Cabinet i'w benderfynu
- Nid oedd Adroddiad y Cabinet yn ddigon manwl ac yr oedd yn aneglur ynghylch cwmpas y polisi
- Yr oedd cwmpas y polisi yng nghyd-destun canllawiau Llywodraeth Cymru a'r hyn y mae Cyngorau eraill yn ei wneud yn aneglur
- Ni chyflwynwyd dim tystiolaeth bod plant wedi bod mewn perygl yn y gorffennol ar ymweliadau ysgolion.

Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i gael eglurhad pellach ynghylch rhai materion ynghyd â gwybodaeth ychwanegol. Cytunwyd peidio â chyfeirio'r mater yn ôl at y Cabinet.

Yn dilyn gwaith yr oedd y Ffrydiau Gwaith wedi'i wneud yn flaenorol, ystyriodd y Pwyllgor y sefyllfa o ran Addysg Ddewisol Gartref, gan gynnwys y strategaeth a oedd yn cael ei dilyn ar hyn o bryd, a'r sefyllfa ddeddfwriaethol. O ran Ceredigion, roedd yr Awdurdod yn gwybod bod 136 o blant yn cael eu haddysgu yn y cartref, sef y nifer uchaf o blith holl siroedd Cymru, ac roedd y rhain yn cael eu cefnogi yn unol â'r strategaeth. Mynegodd yr Aelodau eu syndod mai pwerau cyfyngedig oedd ar gael i'r Awdurdod i fonitro'r addysg yr oedd y plant hyn yn ei derbyn. Mynegwyd pryder nad oedd yr Awdurdod, fel mater o drefn, yn medru monitro lles a datblygiad plentyn yn rheolaidd. Anfonwyd llythyr yn datgan pryder at y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar wyth achlysur yn ystod blwyddyn 2012/2013.

Materion allweddol a ystyriwyd yn 2012/13

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ystyriwyd yr adroddiad ynghylch Datblygu Rhaglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu at y Dyfodol ar gyfer 2012/13. Cafodd y Rhaglen Waith at y Dyfodol ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Ystyriodd y Pwyllgor y Siarter Gorfodi Cynllunio gan awgrymu rhai newidiadau. Gwnaeth y Pwyllgor argymhell i'r Cabinet y dylid penodi un Swyddog Gorfodi ychwanegol ac y dylai darpariaeth briodol fod ar gael yng nghyllideb 2013/14 ac yng nghyllidebau'r dyfodol. Dylai'r swydd wedyn gael ei hadolygu ar ôl blwyddyn i benderfynu a fyddai angen cynorthwydd gweinyddol hefyd. Argymhellwyd hefyd y dylid adolygu'r prosesau data o fewn yr Adran. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn cynnal arolwg cwsmeriaid o'r rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaeth gan ddefnyddio sampl o ryw 20 achos.

Ystyriodd y Pwyllgor y cymorth sydd ar gael i fusnesau lleol a'r economi lleol. Roedd hyn yn cynnwys trosolwg o economi Ceredigion, cyllideb a strwythur presennol yr adran, y blaenoriaethau o ran rhoi cymorth i fusnesau, datblygu economaidd a'r Rhaglen Waith ar y Cyd. Yn wyneb y gwaith hwn a'r casgliad mai'r ddwy flynedd gyntaf oedd y rhai anoddaf i fusnesau newydd, cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ynghylch ailbrisió'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol. Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith fod cyfran fawr o fusnesau presennol Ceredigion wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu hardrethi busnes, yn sgil ailbrisió Trethi Busnes yn 2010, ac roedd pryder y byddai hynny'n effeithio ar eu gallu i oroesi a'u lefelau staffio, a fyddai'n cael effaith andwyol ar yr economi leol.

Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol i'r Cabinet:

Dylai'r Cabinet ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar ran y Cyngor gan:

- gefnogi ailbrisió'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol yn 2015; ac
- argymhell cyflwyno rhyddhad rhag talu'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol ar gyfer busnesau newydd sydd â gwerth ardrethol hyd at 20,000; 100% ar gyfer y flwyddyn gyntaf a 50% ar gyfer yr ail flwyddyn.

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adolygiad arfaethedig o'r Terfynau Cyflymder ar y Ffyrdd Sirol Dosbarth A, B a C, gan gynnwys 'Datganiad Dulliau' arfaethedig ar gyfer cynnal yr adolygiad.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried yr incwm o ffioedd a ddaeth i law'r Gwasanaethau Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu. Archwiliodd y Pwyllgor y newidiadau gan gydnabod nad oedd y newidiadau hyn yn golygu bod llai o waith, ond oherwydd cynnydd yn y gwaith nad oedd ffi amdano, roedd angen adolygu'r targedau incwm a oedd wedi'u gosod ar gyfer rheoli adeiladu. Roedd y Pwyllgor yn poeni nad oedd safon y gwasanaeth yr oedd trigolion yn ei gael gan arolygwyr rheoli adeiladu preifat wastad o safon dderbyniol.

Ar ôl ystyried y wybodaeth a roddwyd i'r Pwyllgor ymhellach, cytunwyd y dylid argymhell y canlynol i'r Cabinet:

- Gwneud dim newidiadau i darged incwm y Gwasanaeth Rheoli Datblygu ar yr amod bod y dulliau cysoni presennol yn cael eu cadw.
- Adolygu'r targedau incwm sydd wedi'u gosod ar gyfer Rheoli Adeiladu fel bod y gyllideb yn adlewyrchu'r amgylchiadau sydd wedi newid ers 2010 yn well.
- Bod y Cabinet yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gan godi pryderon ynghylch ansawdd a chysondeb gwaith y mae'r sector preifat yn ei wneud, a gofyn i'r Llywodraeth ystyried monitro a rheoleiddio gwasanaethau er mwyn gwarantu ansawdd y gwaith a sicrhau bod y sectorau preifat a chyhoeddus yn masnachu o fan cychwyn tebyg.

Ystyriodd y Pwyllgor y gyllideb yr oedd y Cabinet yn ei hargymhell ar gyfer 2013/14. Hefyd, galwyd i mewn penderfyniad y Cabinet ynghylch mabwysiadu'r ffioedd parcio arfaethedig ar gyfer 2013-14.

Cyflwynodd Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol wybodaeth ynghylch gwaith y fforwm i'r Pwyllgor gan gynnwys ei rôl statudol. Codwyd y materion canlynol:

- mae mynediad i gefn gwlad yn elfen allweddol i dwristiaeth yng Ngheredigion ac y mae angen sicrhau fod gwell cyfathrebu rhwng y Fforwm a'r Cyngor ar faterion twristiaeth.
- materion ariannu a goblygiadau sicrhau arian grant ar gyfer hawliau tramwy a phrosiectau mynediad (sy'n cyfyngu ar sgôp y Cyngor er mwyn penderfynu ar sut y gosodir blaenoriaethau hawliau tramwy)

- yr angen i edrych ymhellach ar faterion sy'n ymwneud â Phrosiect Mynyddoedd y Cambria a phenderfynu arnynt a'r angen i sicrhau mwy o fewnbwn gan Swyddogion Priffyrdd.

Ystyriodd y Pwyllgor weithdrefn gaffael y Cyngor yn dilyn y gwaith yr oedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Datblygu Economaidd wedi'i wneud yn flaenorol.

Rhodddwyd adroddiad i'r Pwyllgor ynghylch casgliadau'r grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd i adolygu'r contract caffael cig cyfredol. Cyflwynwyd chwe argymhelliad y grŵp Gorchwyl a Gorffen i Grŵp Caffael y Cyngor i'w hystyried wrth baratoi'r contract nesaf ar gyfer cyflenwi cig i'r Cyngor.

**Lisa Saycell
Swyddog Cymorth Craffu
Rhagfyr 2013**